# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 22 Chwefror 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru

(09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 18)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 20 Rhagfyr, 10 Ionawr, 18 Ionawr a 31 Ionawr.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwybodaeth ychwanegol am gyllidebau cyfun - 6 Chwefror 2024**

(Tudalennau 19 - 24)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhaliwyd ar 25 Ionawr - 7 Chwefror 2024**

(Tudalennau 25 - 26)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 16 Chwefror 2024**

(Tudalen 27)

## 3 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(09.30-10.30) (Tudalennau 28 - 53)

Sam Rowlands AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol

Dr Dave Harvey, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd

Christian Tipples, Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

Michael Dauncey, Gwasanaeth Ymchwil y Senedd

**Dogfennau ategol:**

Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), fel y'i cyflwynwyd

Memorandwm Esboniadol

FIN(6)-05-24 P1 - Llythyr gan Sam Rowlands AS at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - 12 Chwefror 2024

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## 5 Goblygiadau ariannol y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 6 Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid: Y wybodaeth ddiweddaraf

(10.45-11.00) (Tudalennau 54 - 55)

**Dogfennau Ategol:**

FIN(6)-05-24 P2 - Papur blaen

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd**

**a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024

Amser: 09.30 - 10.35

# Priefat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

**Yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2024, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o’r cyfarfod heddiw.**

**Cofrestru (09.15-09.30)**

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd arno yn amodol ar fân newidiadau.

## 3 Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

3.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar yr adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion, nododd y safbwyntiau diweddaraf a fynegwyd gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol a chytunwyd i adlewyrchu'r rhain yn adroddiad y Pwyllgor yn y dyfodol ar newidiadau i Brotocol Proses y Gyllideb. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Bwyllgor y Llywydd i ofyn am farn y Comisiwn Etholiadol am newidiadau i'r Protocol.

## 4 Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: Gweinyddu'r Dreth Incwm yng Nghymru 2022-23

4.1 Nododd y Pwyllgor adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3, Senedd a fideogynhadledd ar Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Ionawr 2024

Amser: 09.30 - 15.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13831

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Huw Irranca-Davies AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Jacob Ellis, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Rhiannon Hardiman, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru<br>Darren Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Sally May, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>Lance Carver, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>Carys Lord, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Mary Ann Brocklesby, Cyngor Sir Fynwy<br>Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |

| | |
|---|---|
| | Llinos Medi, Cyngor Sir Ynys Môn<br>Mark Pritchard, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Rhiannon Williams (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Roedd Huw Irranca-Davies MS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore MS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - 11 Ionawr 2024**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 12 Ionawr 2024**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adolygu Protocol Proses y Gyllideb - 15 Ionawr 2024**

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; Jacob Ellis, Cyfarwyddwr: Cysylltiadau Allanol a Diwylliant; a Rhiannon Hardiman, Arweinydd Polisi: Natur a Newid Hinsawdd, Economi, Polisi Bwyd.

## Egwyl (10.00-10.10)

## 4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 6

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan Sally May, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Cyllid; Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru; Lance Carver, Is-lywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg; a Carys Lord, Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## Egwyl (11.10-11.20)

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 7

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Ynys Môn; y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy; a'r Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

## Egwyl (12.20-13.15)

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 8

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllideb a Busnes y Llywodraeth.

6.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn drwy'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chyllidebau cyfun rhwng Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o’r cyfarfod ar 31 Ionawr 2024

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Ceisiadau'n ymwneud â Chyllideb Atodol 2023-24 gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

9.1 Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Pwyllgor ar yr amrywiadau y gofynnwyd amdanynt i Amcangyfrif 2023-24 Archwilio Cymru; ac Amcangyfrif Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24.

## 10 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2024-25

10.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2024-25.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Ionawr 2024

Amser: 09.30 - 12.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13666) yn: [http://senedd.tv/cy/13666](http://senedd.tv/cy/13666)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Richard Hughes, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>Professor David Miles, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>Tom Josephs, Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol<br>David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid<br>Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru<br>Ed Poole, Canolfan Llywodraethiant Cymru<br>Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru<br>Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Rhiannon Williams (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adroddiad ar Alldro 2022-23 - 22 Rhagfyr 2023

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am gan Richard Hughes, Cadeirydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol; yr Athro David Miles, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Tom Josephs, aelod o'r Pwyllgor Cyfrifoldeb Cyllidebol, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

3.2 Cytunodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu:

- Nodyn ar amserlen y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â datblygiadau ym maes paratoi rhagolygon.

**Egwyl (10.15-10.25)**

## 4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Fel rhan o’r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Phillips, Cyfarwyddwr Cyswllt, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; Dr Ed Poole, Uwch Ddarlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru); a Guto Ifan, Darlithydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru (Dadansoddi Cyllid Cymru).

**Egwyl (11.25-11.35)**

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 4

5.1 Fel rhan o’r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jessica Laimann, Grŵp Cyllideb Menywod Cymru / Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru; a Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan.

5.2 Cytunodd Sefydliad Bevan i ddarparu’r canlynol:

- Ei waith cyfrifo mewn perthynas ag ymestyn cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Rhagfyr 2023

Amser: 09.35 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13820

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Laura Anne Jones AS (yn lle Peter Fox AS) |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Fox AS.

1.3 Roedd Laura Anne Jones AS yn dirprwyo ar ran Peter Fox AS.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 PTN 1 – Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Papurau tystiolaeth yn cefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25 - 27 Hydref 2023

2.2 PTN 2 – Llythyr gan y Prif Weinidog: Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Bwyd (Cymru) Argymhelliad 1 - 15 Tachwedd 2023

2.3 PTN 3 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau: Sesiwn dystiolaeth ar gyfer Deiseb P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru - 22 Tachwedd 2023

2.4 PTN 4 – Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 - Memorandwm Esboniadol Diwygiedig - 22 Tachwedd 2023

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Grant Setliad Refeniw – 29 Tachwedd 2023

2.6 PTN 6 – Bil Seilwaith (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru - 1 Rhagfyr 2023

2.7 PTN 7 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol – 14 Tachwedd 2023

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 1

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllideb a Busnes y Llywodraeth.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y canlynol:

- Sut mae datchwyddwr CMC a mynegeion mynegai CPI yn gweithio, a pham ddewisodd Llywodraeth Cymru y mynegai CPI wrth gyfrifo chwyddiant, yng nghyd-destun y Gyllideb Ddrafft.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Rhagfyr

2023

Amser: 09.30 - 10.40

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2023, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

Cofrestru (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Y dull o graffu ar y gyllideb

2.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 a chytunodd ar y dull o wneud hynny:

## 3 Y dull ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Hybrid - Committee room 4 Ty Hywel and video conference via Zoom

## 4 Ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol: Papur cwmpasu

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu ar yr ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol a chytunodd ar y cylch gorchwyl a'r dull o gynnal yr ymgynghoriad.

## 5 Trafod y Flaenraglen Waith

5.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.

## 6 Archwilio Cymru - Ail Amcangyfrif Atodol 2023-24

6.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr gan Archwilio Cymru yn ymwneud â'i Ail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2023-24.

## 7 Goblygiadau ariannol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Oblygiadau Ariannol y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a chytunodd arno yn amodol ar un newid bach.

## 8 Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Oblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a chytunodd arno yn amodol ar un newid bach.

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

6 Chwefror 2024

Annwyl Peredur,

Ymrwymodd fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 18 Ionawr i ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ragor o wybodaeth ynghylch cyllidebau cyfun. Rwy'n ymateb yn sgil fy nghyfrifoldeb am y trefniadau partneriaeth rhanbarthol o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Fel y gwyddoch, mae adran 33 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn galluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu partneriaethau ffurfiol ac i ddirprwyo'r gwaith o arfer swyddogaethau o un corff i'r llall. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn galluogi awdurdod lleol i ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai swyddogaethau penodedig i'r bwrdd iechyd, neu i'r bwrdd iechyd ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai swyddogaethau penodedig i'r awdurdod lleol. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig, comisiynu integredig (neu ar y cyd), a threfniadau ar gyfer cronfeydd cyfun i alluogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig.

Darperir ar gyfer cyllidebau cyfun rhanbarthol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, mae Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd ym mhob ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun mewn perthynas ag:

- arfer eu swyddogaethau llety cartref gofal,
- arfer eu swyddogaethau cymorth i deuluoedd, ac
- unrhyw un neu ragor o’u swyddogaethau penodedig y maent yn penderfynu y byddant yn eu harfer ar y cyd o ganlyniad i'w hasesiad o anghenion y boblogaeth neu eu cynllun ardal ar y cyd.

Gall cronfeydd cyfun fod yn offeryn defnyddiol i gefnogi'r gwaith o gomisiynu ar y cyd wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a darparu'r rhain, mewn modd effeithiol. Un o amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw hybu comisiynu ar y cyd a sefydlu cronfeydd cyfun lle bo hynny'n briodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd, mae'r Canllawiau Statudol ar Weithio mewn Partneriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff partneriaeth roi cyllidebau cyfun rhanbarthol ar waith yn benodol i gefnogi'r gwaith o gomisiynu ar y cyd leoliadau mewn cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Fodd bynnag, gwyddom o'r adolygiad y gwnaethom ei gomisiynu gan KPMG, ac o adroddiadau Archwilio Cymru, mai ychydig o gynnydd a wnaed gan bartneriaethau rhanbarthol mewn perthynas â'r cronfeydd cyfun hyn. Mae hefyd wedi dod yn amlwg o'n trafodaethau gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y byddent yn croesawu mwy o hyblygrwydd o ran penderfynu ar ba lefel y dylid cyfuno cyllidebau er mwyn sicrhau mwy o gomisiynu ar y cyd a chyfuno cyllidebau.

Y llynedd, gwnaethom ymgynghori ar gynigion i gryfhau'r trefniadau ar gyfer comisiynu ar y cyd fel rhan o'n Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Yn ogystal â datblygu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gofal a chymorth a gomisiynir, rydym yn adolygu'r Canllawiau Statudol ar Weithio mewn Partneriaeth fel y bydd gan y cyrff partneriaeth fwy o hyblygrwydd i gyfuno cyllidebau ar y lefel sy'n gweddu orau i'w hanghenion penodol, boed hynny ar lefel ranbarthol, isranbarthol, leol neu glwstwr. Mae'r gofyniad presennol ar gyfer cyllidebau cyfun mewn perthynas â chomisiynu ar y cyd leoliadau cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn wedi'i gadw, ond bydd y canllawiau newydd yn nodi y dylai'r cyrff partneriaeth ystyried comisiynu ar y cyd a chronfeydd cyfun mewn perthynas ag ystod ehangach o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ataliol, gofal cartref, ailalluogi, gofal iechyd parhaus, lleoliadau therapiwtig a diogel i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, pobl ag anabledd dysgu mewn llety byw â chymorth, a chymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl. Pa bynnag lefel y dewisir gweithredu'r cronfeydd cyfun arni, byddem yn disgwyl gweld datganiadau o sefyllfa'r farchnad ranbarthol a strategaethau a fframweithiau comisiynu rhanbarthol ar gyfer yr holl wasanaethau hyn.

Dylai'r cyrff partneriaeth hefyd ystyried unrhyw gyllid y maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru, megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, fel math o gyllideb gyfun.

Ein prif ffynhonnell gyfredol ar gyfer gwybodaeth am gronfeydd cyfun yw cyfrifon ariannol blynyddol y byrddau iechyd lleol, ac mae'n rhaid i'r rhain gynnwys nodyn cyllideb gyfun archwiliedig. Mae'r Atodiad ynghlwm yn crynhoi'r mathau o drefniadau cyllideb gyfun a adroddwyd gan y byrddau iechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Dylid nodi bod yr wybodaeth hon yn dod o flwch testun rhydd o fewn y cyfrifon ac felly nad yw'r wybodaeth yn cael ei darparu mewn fformat cyson. Byddwn yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau mwy o gysondeb o ran adrodd ar gronfeydd cyfun yn eu cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Disgwylir i'r cyfrifon hyn gael eu cyflwyno erbyn diwedd mis Gorffennaf.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Atodiad**

**Cyllidebau Cyfun a adroddwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn eu cyfrifon ariannol blynyddol ar gyfer 2022-23**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Uned Iechyd a Gofal Cymdeithasol Dyffryn Mynwy

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda Chyngor Sir Fynwy. Caiff cronfeydd eu cyfuno i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol ar ffurf cyfleusterau cleifion mewnol, cleifion allanol, clinig a gofal dydd i unigolion sydd ag anghenion meddygol, cymdeithasol, cymunedol neu adsefydlu.

Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Gwent Gyfan

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda'r pum awdurdod lleol yn ardal Gwent er mwyn darparu Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig effeithiol ledled Gwent i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn ardaloedd y partneriaid. Caiff cronfeydd eu cyfuno ar gyfer y storfa cyfarpar ar y cyd yn ardal Gwent.

Canolfan Adsefydlu Parc Mardy

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drefniant cyllideb gyfun gyda Chyngor Sir Fynwy. Caiff cronfeydd eu cyfuno i ddarparu gofal i unigolion sydd ag anghenion adsefydlu. Cynhelir y gronfa gan Gyngor Sir Fynwy.

Rhaglen Eiddilwch Gwent

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda phum awdurdod lleol yn ardal Gwent er mwyn darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig â ffocws ar eiddilwch ledled Gwent i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n byw yn ardaloedd y partneriaid. Caiff cronfeydd eu cyfuno i sefydlu gwasanaeth cyson ar gyfer ardal Gwent.

Gofal Iechyd Parhaus - Pobl Hŷn mewn Cartrefi Gofal

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda'r pum awdurdod lleol yn ardal Gwent er mwyn darparu a chomisiynu rhai gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl hŷn (dros 65 oed) mewn cartrefi gofal yng Ngwent. Sefydlwyd y gronfa ym mis Awst 2018 ac fe'i cynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i bum trefniant cyllideb gyfun:

- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru – a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint

- Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Sir Ddinbych – a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych – a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych
- Storfa Cyfarpar Cymunedol Bryn-y-Neuadd – a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyllideb Gyfun Llety Pobl Hŷn Gogledd Cymru – a gynhelir gan Gyngor Sir Ddinbych.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Storfa Cyfarpar ar y Cyd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i drefniant cyllideb gyfun gydag awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg er mwyn gweithredu Storfa Cyfarpar ar y Cyd i ddarparu a dosbarthu cyfarpar a nwyddau traul cyffredin i gleifion. Cynhelir y gronfa gan Gyngor Caerdydd, sef y corff arweiniol sy'n gyfrifol am y cynllun hwn.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Storfa Cyfarpar Cymunedol Integredig ar y Cyd (Sir Gaerfyrddin)

Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gyllideb gyfun gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ar 1 Hydref 2009, er mwyn cyfuno cronfeydd i ddarparu storfa cyfarpar cymunedol integredig ar y cyd, a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Storfa Cyfarpar Cymunedol Integredig (Ceredigion)

Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gyllideb gyfun gyda Chyngor Sir Ceredigion ar 1 Ebrill 2009 er mwyn darparu storfa cyfarpar cymunedol integredig ar y cyd. Cynhelir y gronfa gan Gyngor Sir Ceredigion.

Storfa Cyfarpar Cymunedol Integredig (Sir Benfro)

Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gytundeb gyda Chyngor Sir Penfro ar 31 Mawrth 2011 er mwyn darparu storfa cyfarpar cymunedol integredig ar y cyd, ac ers 1 Hydref 2012 mae'r cytundeb wedi gweithredu fel cronfa gyfun. Cynhelir y gronfa gan Gyngor Sir Penfro.

Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol Sir Gaerfyrddin

Ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i gytundeb gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ar 3 Mawrth 2011 er mwyn darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymunedol yn Sir Gaerfyrddin. Ni fydd y cytundeb adran 33 ei hun ond yn darparu'r fframwaith ar gyfer bwrw ymlaen ag atodlenni yn y dyfodol. Felly, mae'n cyfeirio at yr holl wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol (oedolion a phlant) a gwasanaethau tai a diogelu'r cyhoedd cysylltiedig yn y gymuned, fel na fydd rhaid paratoi cytundeb ar wahân os ystyrir unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol. **Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllidebau cyfun sy'n gysylltiedig â'r cytundeb hwn.**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe a Chyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cyfuno eu cronfeydd i ddarparu gwasanaeth cyfarpar cymunedol integredig.

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Gofal Nyrsio a Ariennir

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth er mwyn darparu gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartrefi gofal.

Gwasanaeth Ailalluogi

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth mewn perthynas â chomisiynu arweiniol o gronfa gyfun ar gyfer darparu gwasanaeth ailalluogi ar y cyd, effeithiol a chynaliadwy. Cyngor Sir Powys yw'r sawl sy'n cynnal y gronfa.

Gwasanaethau Triniaeth Seicogymdeithasol Haen 2/3

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth er mwyn darparu gwasanaethau haen 2 a gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr cyffuriau ac alcohol a'r bobl sy'n pryderu amdanynt. Cyngor Sir Powys yw'r comisiynydd arweiniol a'r sawl sy'n cynnal y gronfa.

Gofal Personol yn Uned Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Glan Irfon

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth i alluogi'r defnydd o adnoddau sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cleifion Mewnol yng Nghanolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Glan Irfon, Llanfair-ym-Muallt. Cyngor Sir Powys yw'r comisiynydd arweiniol a'r sawl sy'n cynnal y gronfa.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont a Merthyr Tudful

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gyllideb gyfun gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff cronfeydd eu cyfuno i ddarparu Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol Integredig. Cynhelir y gronfa gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2024

Annwyl Peredur,

Ymhellach at fy llythyr diweddar yn eich hysbysu o gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 25 Ionawr yng Nghaeredin, hoffwn adrodd yn fyr ar y trafodaethau. Cyhoeddwyd hysbysiad hefyd yn dilyn y cyfarfod: [Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 25 Ionawr 2024 - (www.gov.uk)]

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod, roedd y Gwir Anrh. Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Ymunodd swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd o bell, i arsylwi.

Yn ystod ein trafodaethau ynghylch y cyd-destun economaidd a chyllidol presennol, codais y mater o'r pwysau sylweddol ar wariant cyhoeddus, yn enwedig y rhai yr adroddir amdanynt gan y GIG a chan yr awdurdodau lleol.

Fel yn achos cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, pwysleisiais unwaith eto yr achos dros ddarparu rhagor o hyblygrwydd yn y gyllideb, gan gynnwys proses y cytunwyd arni ar gyfer cyfnewid cyfalaf yn refeniw er mwyn cynnig rhagor o sicrwydd yn y dyfodol. Tynnais sylw hefyd at rai o'r argymhellion ariannol yn adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a oedd yn dadlau bod yr hyblygrwydd yr ydym yn ei geisio gan Drysorlys EF yn rhesymol. Trafodwyd y pecyn cymorth ariannol yr adroddwyd amdano ar gyfer Gogledd Iwerddon, a phwysleisiais y pwynt fod angen cymorth ym mhob ardal o'r DU i ymateb i'r holl bwysau ar wariant cyhoeddus yr ydym yn eu hwynebu.

Rhoddodd Dirprwy Brif Weinidog yr Alban a minnau ddiweddariad ar gyllidebau y llywodraethau datganoledig. Tynnais sylw at yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu y flwyddyn hon o ran ansicrwydd ynghylch ein setliad cyllidebol, a'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u gwneud er mwyn ail-flaenoriaethu cyllid. Pwysleisiais yr angen i nodi unrhyw newidiadau i'n cyllideb yn gynnar er mwyn cefnogi gwaith cynllunio, gan gynnwys darparu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eglurder ar fyrder ynghylch a fydd lefel sylfaenol yn cael ei gosod ar gyfer cyllid Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn ystod trafodaeth ar Gyllideb y Gwanwyn Llywodraeth y DU, codais yr heriau sy'n dod yn sgil amseru Cyllideb y Gwanwyn, gan ystyried ei bod yn digwydd y diwrnod ar ôl i'r Senedd bleidleisio ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Cyflwynais yr achos dros ddefnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'r Canghellor i ddarparu'r buddsoddiad hanfodol sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyflogau a phensiynau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chymorth pellach ar gyfer costau byw a buddsoddiad ychwanegol i wella cynhyrchiant a thwf.

Daeth y cyfarfod i ben drwy gyfnewid gwybodaeth a syniadau ar fesurau i drechu tlodi. Rhoddais drosolwg o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiais hefyd y galwadau gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell i Lywodraeth y DU ddiwygio'n sylfaenol sut y pennir cyfraddau budd-daliadau ac i weithredu Gwarant Hanfodion ar gyfer sicrhau bod pobl yn gallu talu eu costau sylfaenol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y gwanwyn.

Yn gywir

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 2.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/50/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

16 Chwefror 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a gynhelir ar 20 Chwefror 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Pwyllgor ers ailsefydlu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Rwy'n rhagweld y bydd y cyfarfod rhithwir hwn yn gyfle i drafod cysylltiadau rhynglywodraethol yn eu cyfanrwydd yn sgil dychweliad Gweinidogion Gogledd Iwerddon, yn ogystal â deddfwriaeth y DU a chydlyniant cymunedol. Byddaf hefyd yn tynnu sylw at yr adroddiad terfynol diweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwyllgor Cyllid / Finance Committee FIN(6)-05-24 - P1

Eitem 3

**Sam Rowlands**
Member of the Welsh Parliament for North Wales
-
Aelod Senedd dros Gogledd Cymru

**North Wales Office | Swyddfa Gogledd Cymru**
North Wales Business Park, Abergele LL22 8LJ
-
**Cardiff Office | Swyddfa Caerdydd**
Senedd Cymru, Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
-
**Tel | Ffôn:** 0300 200 7267
**Email | E-bost:** sam.rowlands@senedd.wales

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
CF99 1SN

12 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch unwaith eto i'r Pwyllgor am yr amser y mae wedi'i dreulio'n ystyried manylion y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru).

Ysgrifennaf mewn ymateb i gais Adam Price AS i mi ddarparu enghreifftiau o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n gorfodi cynnwys rhai elfennau mewn canllawiau. Rwyf wedi cynnwys yn yr Atodiad i'r llythyr hwn ddetholiad o enghreifftiau diweddar sy'n ymdrin â'r pwynt hwn, o Ddeddfau Senedd Cymru a Deddfau Senedd y DU.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,



Sam Rowlands AS
**Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru**

**Atodiad**

| Deddf | Adran | Nodyn esboniadol |
|---|---|---|
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 | 196(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r cyrff a restrir yn is-adran (2)—<br>(a) ar sut y gall y cyrff gyfrannu tuag at lunio cofnodion amgylchedd hanesyddol a chynorthwyo i gynnal y cofnodion, a<br>(b) ar y defnydd o gofnodion amgylchedd hanesyddol wrth arfer swyddogaethau'r cyrff. | Mae adran 196 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut y gallant gyfrannu at y gwaith o lunio a chynnal a chadw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ac ar y defnydd o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol wrth gyflawni eu swyddogaethau. |
| Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 | 2(3) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch—<br>(a) y cynhyrchion plastig untro sydd wedi eu gwahardd o dan y Ddeddf hon;<br>(b) cymhwyso unrhyw esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen. | Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd o dan y Ddeddf, a sut y dylid cymhwyso unrhyw eithriadau sy'n cael eu rhestru o dan golofn 2 yn y Tabl. |
| Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 | 9(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch cyfansoddiad yr is-grŵp caffael cyhoeddus (gan gynnwys at ddiben sicrhau aelodaeth sydd â chynrychiolaeth briodol),<br>a rhaid i'r CPG roi sylw i'r canllawiau hynny. | Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r CPG gymryd pob cam rhesymol i sefydlu is-grŵp penodol sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus o fewn chwe mis i adran 9(1) ddod i rym.<br><br>Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru bennu a chyhoeddi'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr is-grŵp caffael cyhoeddus, llunio canllawiau y mae'n rhaid i'r CPG roi sylw iddynt wrth benodi aelodau, gan gynnwys canllawiau at ddiben sicrhau bod gan yr aelodaeth gynrychiolaeth briodol a'r gweithdrefnau i'w dilyn yn ystod cyfarfodydd.<br><br>Mae'r adran hefyd yn nodi materion penodol y mae'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhaid i'r gweithdrefnau sydd i'w cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ymdrin â nhw; mae'r rhain yr un fath â'r rhai yr ymdrinnir â nhw yn y gweithdrefnau a bennir ac a gyhoeddir mewn perthynas â'r CPG llawn. |
| Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 | Adran 134(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu<br>pa un ai i gymeradwyo corff neu unigolyn at ddibenion yr adran hon. | Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n nodi'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried wrth gymeradwyo corff neu unigolyn y caniateir i'r wybodaeth gael ei rhannu ag ef. |
| Deddf Diogelu Data 2018 | 12(2) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol nodi drwy reoliadau…yr hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys. | Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r canllawiau ei gynnwys. |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon